# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

## Cofnodion y cyfarfod ar 4 Tachwedd 2013
## 13.30 - 15.00, Ystafell Gynadledda 4B

**Yn bresennol:**
**Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)**
**Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)**
**Anna Daniel (Pennaeth Trawsnewid Strategol)**
**Elisabeth Jones (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol)**
**Steven O'Donoghue (Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad)**
**Kathryn Potter (Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil)**
**Gareth Price (Pennaeth Cyfathrebu Dros Dro)**
**Mike Snook (Pennaeth Ystadau a Chyswllt Cyntaf)**
**Craig Stephenson (Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth ir Comisiwn ac i'r Aelodau)**
**Dave Tosh (Cyfarwyddwr TGCh)**
**Chris Warner (Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth)**
**Sian Wilkins (Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau)**
**Liz Jardine (Ysgrifenyddiaeth)**

**1.0 Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

**1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi).**

**1.2 Nid oedd buddiannau i'w datgan.**

**2.0 Cyfathrebu â staff**

**2.1 Cytunodd Anna Daniel i ddrafftio nodyn am drafodaethau'r Bwrdd Rheoli ar gyfer y dudalen newyddion.**

**3.0 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2013**

**3.1 Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.**

**4.0 Cyfieithu peirianyddol**

**4.1 Cyflwynodd Anna Daniel y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran datblygu gallu cyfieithu peirianyddol**

gwell er mwyn cynorthwyo i wella gwasanaeth cyfieithu'r Comisiwn, darparu ateb ar gyfer defnydd ehangach ohono gan staff ac Aelodau, a chyflawni cyfrifoldebau'r Comisiwn o dan y Cynllun Ieithoedd Swyddogol.

4.2 Roedd y papur yn amlinellu'r gwaith sylweddol a wnaed i ddatblygu a gwerthuso dwy dechnoleg cyfieithu peirianyddol, lle bu'n rhaid llwytho data ar y system a'i brofi. Ar y pryd, roedd 7,700 o ddogfennau, yn ogystal â 14 o eiriaduron, wedi'u bwydo i mewn i'r feddalwedd. Byddai'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn rhoi cynllun peilot ar waith ar y feddalwedd, ac roedd grŵp defnyddwyr yn cynorthwyo i brofi'r opsiynau ac yn casglu adborth ar ganfyddiad y defnyddwyr ynghylch cywirdeb.

4.3 Nid oedd y tîm prosiect mewn sefyllfa eto i ddweud sut y byddai hyn yn effeithio ar ansawdd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth yn llawn. Bu'r Bwrdd Rheoli yn ystyried canlyniadau'r profion ac roedd yn argymell y dylid cynnwys amserlenni dangosol, a chymhwyso sail y sgoriau a ffocws y gwaith hyd yma.

4.4 Byddai'r papur yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn ar 21 Tachwedd ar gyfer clywed ei safbwynt ar y camau nesaf i'w cymryd a blaenoriaethau.

5.0 Pwyllgorau Seneddol o Safon Fyd-eang

5.1 Trafododd y Bwrdd Rheoli bapur ar yr adolygiad o'r cymorth a ddarperir i Bwyllgorau'r Cynulliad, a gyflwynir i'r Comisiwn ar 11 Tachwedd. Roedd y papur yn disgrifio beth yw pwyllgorau seneddol sy'n perfformio i safon uchel, yn darparu archwiliad o'r ffactorau penodol o fewn y Cynulliad y dylid canolbwyntio pob ymdrech arnynt, a'r meysydd arfaethedig i'w gwella ac i weithredu arnynt.

5.2 Roedd Daniel Greenberg, Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Cynulliad wedi cyfrannu at yr adolygiad, ynghyd ag arbenigwyr eraill sydd ag awdurdod yn y maes, a byddai ef yn bresennol yng nghyfarfod y Comisiwn. Ymgynghorwyd yn eang ar y papur er mwyn sicrhau ei fod yn wrthrychol ac yn cynnwys gwybodaeth am arferion seneddol mewn mannau

eraill, a'u profiadau, yn ogystal â gwybodaeth a gair o brofiad gan staff y Cynulliad.

5.3 Rhoddodd y Bwrdd Rheoli adborth ar y papur, a byddai'n rhoi gwybod ynghylch unrhyw faterion sy'n codi yn y pwyllgorau yn ystod yr wythnos a allai effeithio ar drafodaethau'r Comisiwn.

6.0 Statws o ran risg corfforaethol a golwg fanwl ar risg i gapasiti corfforaethol

6.1 Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth fanwl i'r risg o ran y capasiti i gyflawni'r blaenoriaethau ac amcanion corfforaethol, a sut yr oedd y mater yn cael ei reoli. Bu aelodau'r Bwrdd yn pryderu y gallai'r gallu i ddarparu gwasanaethau fod mewn perygl pan fyddai'r galw busnes ar ei anterth a bod gwaith sy'n flaenoriaeth i'w wneud ar yr un pryd, ac y gallai hyn effeithio ar les ac ysbryd staff hefyd.

6.2 Cydnabuwyd bod creu'r tîm Trawsnewid Strategol wedi arwain at yrru ymlaen â gwaith a gwneud cynnydd yn gyflymach, fodd bynnag, roedd gweithgareddau eraill yn is ar y rhestr flaenoriaethau yn sgîl hynny. Bu'r Bwrdd yn trafod ymyriadau a allai gefnogi anghenion busnes yn ystod yr amseroedd prysuraf hyn. Byddai'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried dull gweithredu'r Bwrdd Rheoli o ran y mater o gynnig adborth a chyngor yn eu cyfarfod yn ddiweddarach yn ystod yr wythnos.

6.3 Trafododd y Bwrdd Rheoli y gofrestr risgiau corfforaethol, a holodd a oedd unrhyw beth ar goll, neu unrhyw beth ar y gweill y dylid ei ychwanegu.

6.4 O ganlyniad i'r toriadau diweddar yn y cyflenwad pŵer a oedd wedi effeithio ar gyfarfodydd pwyllgor a gwasanaethau TG, sefydlwyd grŵp i adolygu'r mater ac i ymateb, ac yna byddai Mike Snook yn penderfynu a ddylai'r mater gael ei nodi fel risg corfforaethol.

Cloi'r cyfarfod

7.0 Unrhyw fater arall

7.1 Bu'r Bwrdd Rheoli yn trafod sut y caiff canlyniadau'r arolwg staff a'r camau sydd i'w cymryd yn ei sgîl eu cyflwyno yn y

**cyfarfod i'r holl staff sydd i'w gynnal ar 11 Tachwedd. Cytunwyd y byddai sesiwn arall yn cael ei threfnu ar gyfer aelodau o staff nad oedd yn gallu bod yn bresennol.**